



Paratoi ar gyfer dyfodol gwahanol – adroddiad terfynol

CYNNWYS

Cyflwyniad	1
Dull	1
Cyfranogwyr	4
Trosolwg o brofiad y sector gwirfoddol o Covid-19	5
Pa effaith mae Covid-19 wedi'i chael?	7
Sut gallai hyn arwain at newid tymor hir – cadarnhaol a negyddol?	12
Beth yw'r goblygiadau i'r sector?	17
Beth allai mudiadau gwirfoddol, CGGC, llywodraeth, neu fudiadau eraill sy'n gwneud penderfyniadau ei wneud er mwyn helpu i'n harwain at ddyfodol gwell.	21
Gwybodaeth ychwanegol	24

CYFLWYNIAD

Mae'r Coronafeirws wedi effeithio ar gymunedau ar draws Cymru ers i'r achos cyntaf o Covid-19 gael ei gofrestru yng Nghymru ar 28 Chwefror 2020. Roedd llawer o fudiadau sector gwirfoddol eisoes yn addasu sut roedden nhw'n darparu gwasanaethau cyn i'r DU gyflwyno'r cyfyngiadau symud ar 23 Mawrth 2020. Ers y dyddiad hwnnw, mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru wedi wynebu llawer o heriau wrth ddelio â chanlyniadau uniongyrchol ac anuniongyrchol y Coronafeirws.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi mewnbwn pobl a mudiadau ar draws y sector gwirfoddol yng Nghymru wrth iddyn nhw addasu i ddarparu o dan gysgod tymor hir y Coronafeirws. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, er bod llawer o fudiadau'n ymateb i lacio'r cyfyngiadau symud, mae'n glir nad oes modd dychwelyd i'r un modelau o ddarparu gwasanaethau a oedd yn bodoli yn y sector cyn mis Chwefror 2020. Heb frechiad, a gyda'r feirws yn dal i ledaenu, bydd dulliau fel gwarchod a chadw pellter cymdeithasol yn effeithio ar bopeth y mae mudiadau'r sector gwirfoddol yn ceisio eu cyflawni.

Dyma gyfnod o newid i'r sector – ac mae sawl dyfodol gwahanol ar gael i'r miloedd o fudiadau yn y sector. Mae cyfle i'r sector, a'r mudiadau sy'n ei gefnogi a'i ariannu, ganfod y dyfodol y maen nhw'n dymuno ei weld - gan sylweddoli bod Covid-19 wedi dod â gwybodaeth gadarnhaol a negyddol. Gall y sector gwirfoddol gydweithio i ddylanwadu'n gadarnhaol ar y dyfodol.

Mae corff yr adroddiad hwn yn ceisio coladu'r prif themâu a'r gweithredoedd a ddeilliodd o chwe digwyddiad. Mae crynodebau mewn perthynas â phob digwyddiad ar gael yn atodiad yr adroddiad hwn.

DULL GWEITHREDU

Yn ystod mis Mai a Mehefin 2020, fe wnaeth CGGC hwyluso rhaglen o fforymau trafod ar-lein er mwyn deall y materion sy'n wynebu'r sector gwirfoddol yng Nghymru o ganlyniad i Covid-19, y posibiliadau gwahanol sy'n codi ar gyfer y dyfodol, a sut gallwn ni baratoi orau i gael y

canlyniadau mae'r sector eisiau yn y dyfodol. Mae hyn yn adeiladu ar yr [wybodaeth gychwynnol](#) a gyhoeddodd CGGC ym mis Mai 2020.

Roedd cyfres o chwe sesiwn gyda phob un yn canolbwyntio ar bwnc gwahanol, a chynhaliwyd holiadur ehangach hefyd. Cafodd y rhain eu hyrwyddo i aelodau CGGC ac roedd mynediad atynt am ddim. Roedd pob sesiwn yn canolbwyntio ar bwnc gwahanol.

- Gwynwch ariannol – 14 Mai 2020
- Adeiladu ar ymateb y gymuned a gwirfoddoli – 21 Mai 2020
- Darparu gwasanaethau – 28 Mai 2020
- Dylanwadu ar bolisi – 4 Mehefin 2020
- Newid yn yr hinsawdd – 11 Mehefin 2020
- Economi lles – 18 Mehefin 2020

Penderfynwyd ar bynciau'r pedair sesiwn olaf trwy ddwy bleidlais ar gyfryngau cymdeithasol. Darparwyd yr ail sesiwn mewn partneriaeth â CLLC ac Un Llais Cymru a darparwyd y sesiwn olaf mewn partneriaeth â Busnes yn y Gymuned.

Darparwyd y sesiynau'n ddigidol drwy Microsoft Teams.

Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar bedwar cwestiwn allweddol

- Pa effaith mae COVID-19 wedi ei chael?
- Sut gallai hyn arwain at newid tymor hir – cadarnhaol a negyddol?
- Beth yw'r goblygiadau ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru?
- Beth allai mudiadau gwirfoddol, CGGC, llywodraeth, neu fudiadau eraill sy'n gwneud penderfyniadau ei wneud er mwyn helpu i'n harwain at ddyfodol gwell.

Fe wnaeth y cyfranogwyr lenwi arolwg byr ar ôl cofrestru ar gyfer pob sesiwn, a datblygwyd adroddiad adlewyrchol ar gyfer pob un. Mae crynodeb o bob arolwg ac o'r adroddiadau sesiwn i'w cael yn atodiadau'r

adroddiad hwn. Mae'r adroddiadau a dolen i recordiad o bob sesiwn ar gael ar wefan CGGC.

Mae'r adroddiadau hyn yn ceisio sefydlu themâu a chymau gweithredu yn hytrach na chreu crynodeb o beth gafodd ei ddweud. Maent yn adlewyrchu ymatebion yr arolygon a chyfraniadau yn ystod y digwyddiadau yn hytrach na sefyllfa CGGC neu Richard Newton Consulting. Mae'r naratifau'n adlewyrchu beth ddywedodd pobl a'u canfyddiadau o beth sy'n digwydd yn y sector. Mae hefyd yn werth nodi bod y fforymau trafod wedi digwydd dros gyfnod o chwe wythnos a bod agweddau, profiadau a rhagolygon y cyfranogwyr ar gyfer y dyfodol wedi amrywio rhwng y sesiynau.

Ochr yn ochr â'r sesiynau, fe wnaeth CGGC gynnal arolwg cyffredinol arlein. Mae canlyniadau'r arolwg hwn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

CYFRANOGWYR

Roedd rhwng 70 a 100 wedi cyfrannu at bob sesiwn. At ei gilydd, fe wnaeth dros 266 o fudiadau unigryw gofrestru i gymryd rhan. Mae rhestr o'r mudiadau hyn ar gael trwy wneud cais (gweler [rhagor o wybodaeth](#) isod).

Roedd y gynrychiolaeth fwyaf gan y canlynol:

Maes gwaith	Canran y nifer a oedd wedi cofrestru
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	30%
Mudiadau aelodaeth a chyrrff seilwaith	15%
Grwpiau cymunedol	8%
Addysg a hyfforddiant	6%

Amgylcheddol	5%
Mudiadau tai	4%
Mudiadau leuenctid	4%
Cyllidwyr	3%
Cynghorau cymuned / plwyf	3%

Mae'r data'n gyfyngedig o ran lleoliad daearyddol y mudiadau.

Cafodd yr arolwg ar-lein ei lenwi gan 21 o ymatebwyr. Roedd 63% o'r rhain yn elusennau a 21% yn fudiadau sector gwirfoddol. Roedd y rhan fwyaf yn fudiadau llai o ran eu cyrhaeddiad daearyddol gyda 37% o'r ymatebwyr yn canolbwyntio ar un awdurdod lleol a dim ond 21% yn darparu gwasanaethau ledled Cymru.

Er bod hwn yr ymarferiad mawr sy'n disgrifio tueddiadau defnyddiol, ni ellir credu bod y set ddata yn ddigon mawr a chymhleth i gynrychioli sector gwirfoddol Cymru yn llawn.

TROSOLWG O BROFIAD Y SECTOR GWIRFODDOL O COVID-19

Cyn archwilio themâu unigol yn llawn, mae'n ddefnyddiol cael trosolwg o effaith weithredol Covid-19 ar y sector. Mae'r sector yn dweud ei fod wedi gorfod gwneud newidiadau pellgyrhaeddol i'r modelau darparu a hynny'n gyflym (dros nos mewn gwirionedd). Roedd ymateb cyntaf y sector yn amrywio gan ddibynnu ar y math o fudiad.

- Roedd gwasanaethau ymateb brys rheng flaen yn dweud eu bod wedi gweld cynnydd yn syth bin yn y galw am weithgareddau a'u bod wedi gorfod cefnogi hyn gyda ffyrdd gwahanol o weithio. Os oedd y ffyrdd gwahanol o weithio'n golygu bod angen Cyfarpar Diogelu Personol, roedd hi'n anodd cael gafael arno yng nghyfnod cynnar y pandemig.
- Yna aml, cafodd gwasanaethau dianghenraid eu hatal yn syth. Mewn llawer o achosion dilynwyd hyn gan ail-ddyrannu adnoddau

sylweddol / buddsoddiad er mwyn addasu gwasanaethau i gadw pellter cymdeithasol, a oedd i'r mwyafrif yn golygu symud at ddarpariaeth ddigidol / o bell.

- Roedd yn rhaid i wasanaethau mewn lleoliad penodol (ee canolfannau cymunedol, theatrau ac orielau) gau yn syth ac mae'r mwyafrif yn parhau ar gau adeg ysgrifennu hwn.
- Roedd cyfyngiadau pellach i wasanaethau oherwydd yr effaith ar gyllidebau tymor byr ac ofnau am gynaliadwyedd ariannol tymor canolig a hirach. Gwelodd fudiadau ostyngiad mewn incwm yn syth bin (gwirfoddol / masnachol) a phryder y byddai gostyngiad mewn cyllid gan y llywodraeth yn y tymor hirach. Roedd y cyfyngiadau hyn yn cynnwys rhoi llawer o weithwyr ar gynllun ffyrlo Llywodraeth y DU o dan y Rhaglen Cadw Swyddi.

Soniwyd droeon ei bod hi wedi bod yn 'hawdd' cyflwyno'r cyfyngiadau symud. Cafodd ei orchymyn, fel argyfwng iechyd y cyhoedd. Mae gadael y cyfyngiadau symud yn anoddach gyda mudiadau'n gorfod gwneud eu penderfyniadau eu hunain o ran peryglon, ansicrwydd ynglŷn ag amserlenni, amrywiadau daearyddol ar draws y DU a gwneud yn siŵr bod prosesau diogel priodol ar waith i dawelu meddwl defnyddwyr gwasanaethau, gwirfoddolwyr a rhoddwyr.

Arsylwadau trawsbynciol

Tra bod pob digwyddiad wedi creu ei drafodaeth ei hun, mae nifer o themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro, ac sydd yn werth eu hystyried yn gyffredinol. Yn benodol:

- Mae'r sector gwirfoddol yn amrywiol. Mae amrediad o ffactorau fel maint y mudiad, strwythurau llywodraethu, model darparu, model incwm a phwrpas y mudiad yn effeithio ar brofiadau ac agweddau mudiadau.
- Mae anghydraddoldeb o fewn y sector ac ar draws cymdeithas wedi cael ei amlygu. Yn fwyaf nodweddiadol, mae pobl o gymunedau BAME a phobl anabl wedi cael eu heffeithio'n anghymesur gan COVID.

- Mae symud at dechnoleg ddigidol wedi dod â manteision (fydd yn cael eu trafod yn nes ymlaen) ond mae ganddo gyfyngiadau hefyd, gan gynnwys eithrio rhai pobl oherwydd eu cyfyngiadau llythrennedd digidol neu broblemau seilwaith ehangach sy'n gysylltiedig â capasiti band eang.
- Mae pobl a chymunedau yn dod at ei gilydd yn wirfoddol i gefnogi ei gilydd wedi bod ar flaen yr ymateb, gan ddangos pŵer camau gweithredu sy'n cael eu harwain gan y gymuned.
- Mae Covid-19 yn creu newid strwythurol tymor byr ac o bosib tymor hir i'r sector. Er enghraifft, trwy ragor o gydweithio, uno cwmnïau, modelau llywodraethu amgen ac adeiladu capasiti ar gyfer arloesi a chadernid.
- Mae'r pandemig wedi gorfodi cydweithio ar draws y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol ac mewn nifer o achosion mae hyn wedi bod yn effeithiol ac mae wedi digwydd yn gyflym. Mae cyfle i ddysgu o'r cydweithredu hyn a'i gryfhau.
- Mae pryder bod anghenion brys y pandemig wedi golygu bod egwyddorion cyd-gynhyrchu wedi cael eu hanghofio. Wrth werthuso newidiadau i wasanaethau mae angen i'r sector sicrhau bod dinasyddion yn cyd-lunio, yn cyd-ddarparu ac yn cyd-werthuso gwasanaethau cynaliadwy i ddiwallu eu hanghenion nawr, a thrwy'r cyfnod adfer.
- Mae'r effaith ariannol ar fudiadau wedi bod yn sylweddol, gyda'r dyfodol ariannol yn ansicr i nifer o fudiadau. Mae hyn ar adeg gyda'r galw am wasanaethau yn debygol o gynyddu o ystyried effeithiau economaidd dirwasgiad a goblygiadau meddyliol a chorfforol mynd i'r afael â COVID.
- Roedd y mudiadau gwirfoddol oedd yn cymryd rhan yn awyddus i gael adferiad sy'n manteisio ar y cyfle i greu dyfodol gwell yn y tymor hirach.

PA EFFAITH MAE COVID-19 WEDI EI CHAEL?

Cyllid cynaliadwy

Mae'r rhan fwyaf o fudiadau'n sôn am heriau o ran incwm. Y rheini sy'n ddibynnol ar incwm masnachu, digwyddiadau, codi arian corfforaethol a chymunedol sy'n sôn am y colledion mwyaf; mae'r rheini sy'n ddibynnol ar gyllid grant wedi dioddef llai o argyfwng ariannol yn y tymor byr.

Mae llawer ohonynt wedi defnyddio cynlluniau'r llywodraeth, cyllid brys (gan gynnwys yr arian sy'n cael ei ddarparu gan CGGC ar ran Llywodraeth Cymru) er bod rhai yn teimlo nad yw'r ymyriad gwladol yn cyfateb i'r cyllid sydd wedi cael ei golli (a fydd yn y pen draw yn arwain at gyfyngiadau o ran gwasanaethau). Yn ogystal, oherwydd amrediad strwythurau llywodraethu a dibenion gweithredol mudiadau yn y sector, mae rhai mudiadau wedi'i chael hi'n anodd cael mynediad at rai o'r cronfeydd hyn.

Er bod cyllid brys wedi bod ar gael (ac wedi cael ei flaenoriaethu gan lawer o gyllidwyr), mae mudiadau sydd ddim yn rhan o'r ymateb rheng flaen i Covid-19 yn poeni bod y cyllid wedi lleihau ar gyfer gweithgareddau sydd ddim yn ymwneud â Covid-19.

Mae llawer o fudiadau'n poeni er eu bod nhw wedi gallu goroesi yn y tymor byr, y bydd sicrhau cyllid cynaliadwy yn y tymor canolig yn her o ystyried bod cyllidwyr (sydd â chyllid cyfyngedig) yn canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng.

Ymateb y gymuned a gwirfoddoli

Mae'r mudiadau i gyd yn dweud eu bod nhw wedi cael eu synnu gan ymateb y gymuned. Mewn llawer o lefydd mae hyn wedi bod yn organig ac yn lleol iawn gyda thrigolion lleol yn cefnogi eu cymdogion. Mae proffil y gwirfoddolwyr newydd hyn yn wahanol i wirfoddolwyr traddodiadol gydag asiantaethau yn sôn eu bod o oedran gwaith yn hytrach nag wedi ymddeol. Credir bod hyn yn rhan o effaith trigolion ar ffyrlo ac yn gweithio gartref. Maen nhw'n dymuno cynnal yr ymateb hwn wrth symud ymlaen.

Lle mae mudiadau wedi bod yn ddibynnol ar wirfoddolwyr sefydledig, mae yno heriau ychwanegol. Os bydd gwasanaethau (ee amgueddfeydd ac orielau) yn parhau ar gau mae pryderon ynglŷn â chynnal ymgysylltiad tymor hir â'u gwirfoddolwyr. Pan fydd gwasanaethau'n symud at fodolau darparu gwahanol (ee symud gwasanaethau cyngor ar-lein) mae pryderon ynglŷn â nifer (sgiliau, offer, mynediad at gysylltiad) y gwirfoddolwyr.

Mae llawer o wirfoddolwr presennol heb fod ar gael oherwydd bod angen iddyn nhw warchod, eu bod eisiau hunanynysu neu eu bod yn methu ymgysylltu â'u mudiad o bell. Mae darparwr Cludiant yn y Gymuned er enghraifft yn dweud yr effeithiwyd arnynt yn arw oherwydd eu bod nhw'n dibynnu ar wirfoddolwyr hŷn, ac mae'r sector manwerthu elusennol yn dioddef yr un fath wrth iddyn nhw baratoi i ailagor.

Darparu gwasanaethau

Mae'r holl ymatebion yn nodi bod darparu gwasanaeth wedi symud i fodolau gydag ymbellhau cymdeithasol, sydd yn y rhan fwyaf o achosion yn golygu darpariaeth ddigidol / o bell, neu atal y gwasanaeth. Wynebodd y gwasanaethau hynny sy'n cynnig ymateb rheng flaen gynnydd anferth mewn galw a roddodd bwysau ar adnoddau ac a oedd yn golygu bod yn rhaid adleoli gweithwyr ar adegau.

Er bod gweithio o bell yn gweithio'n dda i'r rheini a oedd yn gyfarwydd â dulliau cyfathrebu amgen trwy amrywiaeth o lwyfannau, i rai eraill fe gymerodd amser i addasu. O ran aelodau hŷn ein cymunedau, nid pawb sydd â mynediad at fand eang neu sydd â'r hyder i ddefnyddio technoleg amgen. Wrth ymateb i hyn, fe wnaeth sawl mudiad wella a chynyddu eu llinellau ffôn ymgyfeillio a chyngor.

Mae gwaith gwirfoddol lleol a chyflym wedi bod, ac yn parhau i fod, yn agwedd gadarnhaol o ymateb i anghenion cymunedau. Trefnwyd cyflenwadau bwyd a meddyginiaeth o fewn dyddiau i gynorthwyo'r rheini oedd yn methu â gadael eu cartrefi. Adroddwyd yn eang bod yr ymateb hwn gan y gymuned wedi dod o flaen unrhyw ymateb o ran polisi.

Mae canolbwyntio ar gymorth Covid-19 wedi bod ar draul mynediad at wasanaethau ehangach. Mae adroddiadau bod y galw am (ac argaeledd) gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cyngor ehangach yn anghyffredin o isel - a phryderon am gynnydd nad oes modd delio ag ef wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio.

Mae rhagor o achosion o weithio mewn partneriaeth. Mae llawer o fudiadau yn adrodd bod yno gydweithio â mudiadau eraill ar lefel ddigynsail er mwyn sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael eu diogelu. Yn yr un modd, mae llacio protocolau rhannu data wedi cyfrannu at effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth

Wrth adolygu gweithio mewn partneriaeth, fe wnaeth y cyfranogwyr hefyd sylweddoli sut y mae perthnasoedd â phartneriaid sector cyhoeddus, yn enwedig awdurdodau lleol, wedi newid o ganlyniad i'r pandemig. Nodwyd bod y sector gwirfoddol yn ystwyth ac yn barod i ymateb wrth wasanaethu anghenion y gymuned a'i fod yn anhepgor yn cefnogi pobl agored i niwed trwy'r pandemig o ystyried y ffordd y mae'r sector wedi'i wreiddio mewn llawer o gymunedau.

Dylanwadu ar bolisiâu

Yn unol â darparu gwasanaeth ehangach, ar ddechrau'r pandemig roedd llunwyr polisiâu yn canolbwyntio ar waith yn ymwneud â Covid-19. Roedd hyn yn golygu bod ymgysylltiad staff, swyddogion neu gynrychiolwyr etholedig ar faterion ehangach bron yn amhosib. Roedd hyn yn cynnwys materion iechyd ehangach.

Mae gwaith polisi wedi bod yn canolbwyntio ar bortffolios – ac mae gwaith trawsbynciol rhwng meysydd polisi wedi bod yn amhosib - ee y gorgyffwrdd rhwng gofal cymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau mewn gwasanaeth ailsefydlu preswyl a gwasanaethau Gofal a Thrwsio y mae eu gwaith yn pontio portffolios gwahanol.

Trwy gydol y pandemig, mae polisi wedi cael ei weithredu ar fyrder. Er bod y rhesymau am hyn yn ddealladwy mae pryderon nad yw polisiâu

wedi cael eu gwerthuso a'u harchwilio, gan gynnwys gwreiddio llais y defnyddiwr. Teimlwyd bod hyn yn gam yn ôl o ran polisi mewn rhai meysydd, yn benodol mae'r sector anabledd yn dweud bod symud i ffwrdd o'r model cymdeithasol o anabledd i'r model meddygol.

Mae'r amseru wedi effeithio ar allu mudiadau gwirfoddol i ddylanwadu ar bolisiau yn y cyfnod cyn etholiadau Senedd Cymru 2021. Dydy prosesau datblygu manifestos y pleidiau ddim yn glir a dydy cynigion a baratowyd yn flaenorol ddim yn berthnasol bellach, tra bo rhai eraill angen cael eu datblygu'n gyflym.

Newid yn yr hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd a'r economi werdd wedi bod yn flaenoriaeth i nifer o fudiadau yn y sector gwirfoddol ers peth amser. Mae cyfyngiadau symud gwanwyn 2020 wedi amlygu nifer o ymddygiadau sefydliadol ac unigol, a fabwysiadwyd yn ystod y cyfyngiadau symud, a allai gael effaith gadarnhaol ar newid yn yr hinsawdd.

Yn benodol, mae gweithio gartref, datblygu cadwyni cyflenwi lleol, cefnogi tyfu cynnyrch lleol a datblygu rhwydweithiau lleol i gyd yn cyfrannu at leihau newid yn yr hinsawdd. Mewn nifer o achosion mae ymateb y gymuned wedi defnyddio'r 'Pum Ffordd o Weithio' a amlinellir yn neddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ond, cafodd nifer o'r gweithgareddau a'r ymddygiadau a arweiniodd at allyriadau carbon is eu mabwysiadu yng nghyd-destun cyfyngiadau cymdeithasol llym nad ydynt yn ddymunol yn y tymor hirach.

Economi llesiant

Mae Covid-19 wedi effeithio ar lesiant mewn sawl ffordd. Mae atal nifer o wasanaethau (iechyd, cyngor, gwasanaethau mewn lleoliad penodol) i gyd yn effeithio ar lesiant. Y tu hwnt i hyn, roedd pryderon bod teimlo'n ynysig wedi effeithio ar nifer o bobl - nid yn unig y rheini sy'n teimlo'n ynysig yn draddodiadol ond hefyd y rheini yr effeithiwyd arnynt gan weithio gartref a gwarchod. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i'r gymuned hyn

sydd yn aml yn cael eu cysylltu ag unigrwydd. Yn benodol, mae'r rheini sy'n gwarchod ac yn gofalu am blant ifanc yn teimlo eu bod nhw wedi cael eu hanghofio fel grŵp – yn aml maen nhw'n delio â chyfrifoldebau gofal sylweddol gydag ychydig iawn o gymorth.

Mae'r cyfyngiadau symud wedi amlygu'r ffyrdd y mae ein heconomi'n gyrru anghydraddoldeb ac ymddygiad sy'n niweidio'r amgylchedd. Mae'n cael mwy o effaith ar y rheini sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd.

Mae mesurau'r Llywodraeth o ran gohirio rhent a morgeisi wedi helpu, ond mae mudiadau'n poeni beth fydd yn digwydd pan fydd y mesurau dros dro yn dod i ben. Mae'r cyfyngiadau symud wedi gorfodi rhai newidiadau yn unol ag economi llesiant - patrwm gwaith mwy hyblyg (i rai) gweithio gartref yn rhyddhau rhagor o amser ac yn lleihau allyriadau a charfan newydd o bobl yn gwirfoddoli ac yn cymryd rhan mewn gwaith sy'n cael ei arwain gan y gymuned. Mae angen i unrhyw gyfnod adfer sicrhau bod pobl yn ymgysylltu â'r ymddygiadau hyn yn y tymor hir yn hytrach nag o ganlyniad i ymateb i argyfwng.

SUT GALLAI HYN ARWAIN AT NEWID TYMOR HIR – CADARNHAOL A NEGYDDOL?

Cyllid cynaliadwy

Mae llai o gyllid yn annhebygol o arwain at lawer o newidiadau cadarnhaol tymor hir i'r rheini sy'n cael eu cynorthwyo gan y sector gwirfoddol neu'r rheini sy'n gweithio yn y sector. Mae'n amlwg bod y sector yn paratoi ei hun ar gyfer toriadau i wasanaethau, gyda rhai o'r rhain yn gysylltiedig â dileu swyddi yn y dyfodol, a hynny'n gysylltiedig â phryderon am gyllid yn y tymor canolig a hir. Wrth i fudiadau gynllunio cyllidebau'r blynyddoedd i ddod, oni bai fod ganddyn nhw gronfeydd sylweddol i'w defnyddio, bydd llai o gyllid yn golygu llai o wario neu hyd yn oed gau neu ailstrwythuro.

O gofio hyn, dylai cydweithio ac uno gael ei hybu fel cam cadarnhaol i lawer o fudiadau, yn hytrach na bod â chysylltiadau negyddol. Gallai

annog dulliau gweithredu mwy hyblyg ac ystwyth a chanolbwyntio ar adeiladu cadernid. Bu galw am rai o'r newidiadau hyn mewn ymddygiad – megis rhagor o gydweithio, mwy o ran i fuddiolwyr, mwy o ddefnydd o dystiolaeth a dangos effaith – ers blynyddoedd. Mae'r potensial yno i greu sector fwy cydnerth, er gyda llai o arian, ond mae angen i'r sector gael ei rymuso i gymryd rhan mewn newid strwythurol.

Rydyn ni wedi gweld rhagor o hyblygrwydd gan gyllidwyr, gan alluogi rhagor o waith sy'n cael ei arwain gan yn gymuned i ymddangos, a chanolbwyntio ar gyllid craidd. Bydd y ffordd y mae cyllidwyr yn parhau i ymateb i anghenion a dulliau goroesi'r sector dros y misoedd a blynyddoedd i ddod yn allweddol.

Ymateb y gymuned a gwirfoddoli

Mae cydnabyddiaeth gyffredinol o werth ymateb y gymuned a'r awydd i ddefnyddio egni gwirfoddolwyr. Mae hyn yn golygu pwyso a mesur gyda llawer o'r grwpiau gweithredu cymunedol newydd heb eu cyfansoddi ac yn ymateb gwirioneddol ar lawr gwlad i gefnogi'r cymunedau y mae pobl yn byw ynddynt. Ar un llaw mae eu cyflymder, eu hegri a'u hymatebolrwydd yn asedau gwerthfawr, ar y llaw arall mae pryderon ynglŷn ag arferion diogelwch, atebolrwydd a chynaliadwyedd yn y tymor hirach.

Fe wnaeth llawer o'r gwirfoddoli ddigwydd heb froceriaeth, a oedd yn adlewyrchu'r ymateb lleol ar lawr gwlad.

Wrth symud ymlaen, mae angen cael trafodaethau lleol ynglŷn â chwmpas a phwrpas gweithgareddau grwpiau cymunedol, eu perthynas â darpariaeth arall a'r cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen, er mwyn i weithgareddau anffurfiol allu parhau'n ddiogel ochr yn ochr â'r gwasanaethau mwy ffurfiol sy'n cael eu darparu gan fudiadau gwirfoddol a chyrrff cyhoeddus.

Yn y tymor hir, efallai y bydd rhai o'r grwpiau hyn angen lefel o gyllid er mwyn eu cynnal. Yn y gorffennol agos, mae'n debyg y byddai costau gweithredu wedi cael eu bodloni gan ewyllys da aelodau a'r unigolion a'r

mudiadau (gan gynnwys busnesau) sy'n gysylltiedig â nhw. Yn yr un modd, wrth i frys yr ymateb i Covid-19 leihau, yna efallai y bydd cymhelliant rhai gwirfoddolwyr yn newid neu'n lleihau. Mae potensial i archwilio sut y gallwn ni ddefnyddio cymhelliannau ehangach i gynnal y sylfaen gwirfoddoli ar gyfer newid tymor hir.

Mae grwpiau gwirfoddol wedi cael eu cynorthwyo ar adegau gan fudiadau mwy gan gynnwys y rhwydwaith Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chynghorau Cymuned / Plwyf. Er mwyn deall maint yr ymateb gwirfoddol yn llawn, mae perthnasoedd lleol agosach yn bwysig, gan gynnwys rhannu gwybodaeth fel bod ystod effaith y gweithgareddau gwirfoddol yn gallu cael eu mesur. Mae hefyd angen sicrhau bod cymorth cydradd ar draws pob ardal, gan gydnabod, er enghraifft, bod yna nifer o ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan Gyngor Cymuned neu Gyngor Plwyf.

O ran y sylfaen gwirfoddolwyr sefydledig cyn y pandemig, mae pryderon ynglŷn â faint o'r unigolion hyn fydd yn gallu dychwelyd i'r swyddi o ystyried bod llawer o'r gwirfoddolwyr hyn yn syrthio i'r categorïau 'agored i niwed' wrth ystyried Covid-19. Gallai hyn eu rhwystro rhag dychwelyd i swyddi mewn lleoliad penodol / wyneb yn wyneb heb gymorth / addasiadau sylweddol. Mae'n bosib y bydd gostyngiad mewn gwirfoddoli wrth i'r garfan newydd roi'r gorau i wirfoddoli unwaith y bydd y pandemig a'r cyfyngiadau symud yn llacio tra bo gwirfoddolwyr blaenorol yn dychwelyd i wirfoddoli yn araf.

Darparu gwasanaethau

Mae llawer yn dweud bod dosbarthu digidol wedi agor cynulleidfaoedd newydd ac wedi gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch. Fe wnaeth nifer o gyfranogwyr nodi sut mae eu dalgylchoedd wedi ehangu nawr bod eu gwasanaethau'n cael eu cynnig ar-lein heb unrhyw gyfyngiadau teithio neu ddaearyddol. Nid yw hyn yn cyd-fynd â llawer o'r ymateb i Covid, sydd wedi bod yn seiliedig iawn ar leoedd penodol.

Ond, dydy dosbarthu digidol ddim yn gallu cymryd lle gwasanaethau mewn lle penodol / wyneb yn wyneb yn llwyr. Mae yno rai sy'n cael eu

heithrio gan eu gallu, neu gan gapasiti eu hamgylchedd lleol, i gael mynediad at wasanaethau digidol.

Mae llawer o'r darparwyr a oedd yn gallu cynnig addasiadau hygrychedd i'r rheini sydd ag anghenion mynediad mewn amgylcheddau amser real yn ei chael hi'n anodd gwneud yr un peth mewn sefyllfaoedd digidol / o bell. Yn yr un modd, mae pryder y gallai rhyngweithio digidol fethu'r arwyddion cynnil a fyddai'n dangos, er enghraifft, bod pryderon diogelu ehangach gan unigolyn. Ni ddylai gwasanaethau digidol gael eu hystyried yn atebion gwerth am arian cyffredinol gan gomisiynwyr.

Mae llesiant staff ar draws y sector wedi cael ei effeithio hefyd. Mae rhai wedi dioddef y trawma o fod yn rhan o'r ymateb rheng flaen, tra bo rhai eraill yn wynebu llosgi allan oherwydd y cynnydd mewn galw am wasanaethau a / neu lai o adnoddau i'w darparu. Yn ogystal, mae nifer yn gweld eu swyddi, neu swyddi eu cydweithwyr, yn cael eu heffeithio gan ad-drefnu neu doriadau. Mae gan hyd i gyd oblygiadau o ran gallu hir dymor y sector i ddarparu gwasanaethau.

Mae'r berthynas gyda chomisiynwyr sector cyhoeddus wedi newid i lawer o fudiadau, gyda gwasanaethau'n cael eu comisiynu'n gyflym iawn ac yn aml ar argymhellion y sector gwirfoddol. Mae'r angen i'r sector ddatblygu ei safle fel rhanddeiliad allweddol o ran cynllunio a darparu gwasanaethau. Mae yno nifer o enghreifftiau o gael gwared ar fiwrocratiaeth ac o gomisiynu ystwyth – yn aml mae llacio protocolau rhannu data yn cael eu nodi. Dylai hyn gael ei gadw.

Dylanwadu ar bolisiau

Trwy gydol y pandemig mae'r sector gwirfoddol wedi arwain y ffordd o ran newid gwasanaethau, gyda gwasanaethau sy'n cael eu cynnal yn y gymuned yn cael eu mabwysiadu fel polisi ar ôl cael eu datblygu fel ymateb i argyfwng. Mae hyn yn dangos gallu'r sector i ddylanwadu ar bolisiau o'r gwaelod i fyny. Mae wedi dangos manteision cael y sector yn cymryd rhan mewn datblygu polisiau a chydweithio â darparwyr statudol.

Y tu hwnt i hyn mae rhai newidiadau dros dro i bolisiau sydd wedi cael eu gweithredu o ganlyniad i Covid-19 (ee y cynnydd o £20 i Gredyd Cynhwysol) y mae angen i'r sector eu nodi ac ymgyrchu i'w cadw. Mae hyn hefyd yn berthnasol o ran ceisio cadw'r ffordd y mae'r sector yn cael ei gomisiynu a'r llacio ar fiwrocratiaeth y mae llawer o bobl yn dweud sy'n beth cadarnhaol. Bydd rhai eraill yn llai manteisiol. Mae angen cydweithio i adolygu'r newidiadau polisi sydd wedi cael eu gwneud yn ystod yr argyfwng Covid.

Er gwaethaf y ffaith bod manteision cael y sector yn cymryd rhan mewn datblygu polisiau wedi bod yn amlwg, mae perygl na fydd ganddo'r capasiti i gymryd rhan mewn ailddatblygu maniffestos a chynigion polisi yn sgil y pandemig. Mae pryderon ariannol tymor hir yn golygu y bydd gallu'r sector i gyfrannu at ddatblygu polisiau effeithiol yn debygol o gael ei wanhau dros amser. Gyda phryderon nad yw'r pandemig (a'r canlyniadau economaidd a chymdeithasol cysylltiedig) yn deg yn y ffordd y mae'n effeithio ar gymdeithas, mae'n hanfodol bod llais y sector gwirfoddol yn cael ei glywed wrth ddatblygu polisiau.

Pan fydd mudiadau wedi gallu dod at ei gilydd i gael llais unedig a chryfach, mae wedi arwain at beth llwyddiant o ran dylanwadu. Ond, mae cyflymder y penderfynu wedi arwain at rai dulliau o'r brig i lawr sy'n eithrio lleisiau dinasyddion a'r mudiadau gwirfoddol sy'n cynrychioli eu lleisiau. Mae angen herio penderfynu caeedig neu mewn seilo.

Newid yn yr hinsawdd

Mae ymrwymiad clir gan y cyfranogwyr bod angen i ni fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a bod y ffordd rydyn ni'n mynd ati i ddod yn ôl o'r argyfwng Covid yn cynnig cyfleoedd pwysig i wneud hyn.

Roedd enghreifftiau o arferion ac ymddygiadau cadarnhaol a fyddai'n cefnogi hyn. Roedd rhai mewn ymateb uniongyrchol i'r argyfwng tra roedd rhai eraill yn weithgareddau a oedd yn mynd rhagddynt ac mae'r argyfwng wedi tynnu sylw atynt. Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio mae cyfleoedd i wreiddio rhagor o deithio llesol, lleihau allyriadau o gymudo, a gweithio mwy gartref.

Mae'r argyfwng wedi amlygu manteision mentrau cymunedol a oedd eisoes yn bodoli ac y gellid eu hehangu i ddarparu manteision lluosog o ran llesiant ynghyd â lleihau allyriadau carbon. Er enghraifft mae prosiectau tyfu bwyd yn y gymuned yn lleihau milltiroedd awyr, yn cynyddu cysylltiadau cymdeithasol ac yn helpu i leddfu tlodi bwyd.

Mae mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd (a'r argyfwng natur) yn mynd i olygu newid cyflym a sylweddol. Mae'r ymateb i Covid-19 wedi dangos bod hyn yn bosib. Mae cyfle yn yr adferiad i fuddsoddi mewn mentrau lleol sy'n cael eu harwain gan y gymuned a fydd yn gallu ailadeiladu economïau lleol yn ogystal â lleihau neu ddatblygu'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.

Economi llesiant

Mae'r adferiad Coronafeirws a fydd ei angen yn ymestyn y tu hwnt i iechyd, i fesurau economaidd a chymdeithasol Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei hymrwymiad i adferiad 'teg a gwyrdd', ac mae gan y sector gwirfoddol ran allweddol i'w chwarae yn hyn.

Mae'r argyfwng Covid wedi tanlinellu'r gwerth rydyn ni'n ei roi ar iechyd a lles, perthnasoedd dynol, cymunedau cysylltiedig, a natur. Nid GDP oedd y prif bryder (o leiaf nid i ddechrau). Mae'r argyfwng hefyd wedi tynnu sylw at y ffordd y gwnaeth ein heconomi cyn Covid achosi problemau tymor hirach i'n cymdeithas - gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd, yr argyfwng natur, anghyfiawnderau cymdeithasol ac anghydraddoldeb.

Mae'r argyfwng Covid wedi arwain at ystod eang ac amrywiol o leisiau yn galw am symud i fodelau economaidd gwahanol ac i hyn gael ei wreiddio yn yr adferiad. Mae hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a nifer o fudiadau gwirfoddol a busnesau. Enghraifft o hyn yw'r Gynghrair Economi Llesiant sy'n dechrau dod i'r amlwg.

Mae rhai gwledydd yn symud y tu hwnt i economi sy'n cael ei mesur gan GDP i economi llesiant. Yng Nghymru, mae gennym ni sylfeini cryf ar ffurf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Credwyd bod nifer o grwpiau cymunedol a gwirfoddol yn deall economeg llesiant a gwerth cymdeithasol yn well na chyrff datblygu economaidd statudol..

Mae yno fodolau presennol sydd wedi ennill perthnasedd newydd ac mae arferion newydd mewn ymateb i'r argyfwng yn dangos sut y gellir cyflawni'r newid hwn trwy ei ehangu - er enghraifft, cadwyni cyflenwi lleol sy'n gallu darparu manteision o ran swyddi, iechyd, a chymunedau.

BETH YW'R GOBLYGIADAU I'R SECTOR?

Mae'r sector yn wynebu newid ar lefel ddigynsail. Yn y pen draw, mae ei bwrpas o ran darparu mantais gyhoeddus yn parhau, ynghyd â'i ymrwymiad i ddarparu heb elw preifat a gan ddibynnu ar waith gwirfoddol. O dan hyn i gyd, mae amrywiaeth o gyfleoedd a bygythiadau y dylai mudiadau gwirfoddol fod yn ymateb iddyn nhw - yn unigol ac ar y cyd. Bwriad hyn yw gwneud y gwahaniaeth mwyaf y gallwn ni i bobl a chymunedau ar draws Cymru. Bydd peidio ag ymateb yn arwain at gapasiti llawer is neu hyd yn oed at gau.

Gwytnwch ariannol a newid strwythurol

Yn y tymor byr, canolig a hirach mae pryderon sylweddol gan y sector mewn perthynas â'i allu i sicrhau cyllid, sy'n ariannu gwasanaethau a manteision i bobl ac i gymunedau ar draws Cymru.

Mae hyn yn debygol o greu newidiadau strwythurol ar draws y sector, yn enwedig o'u cyfuno â modelau darparu gwahanol, symbyliadau, gallu gweithredu gyda chadw pellter cymdeithasol, newid yn y galw a grwpiau newydd yn ymddangos.

Mae rhai o'r goblygiadau a drafodwyd ar gyfer y sector yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu diwylliant o gydweithio, rhannu gwybodaeth a chefnogaeth er mwyn galluogi newid strwythurol lle bo'i angen, gan gynnwys uno mudiadau. Ni ddylid ystyried bod uno mudiadau yn arwydd o wendid neu fethiant sefydliadol.
- Mae angen i fudiadau fuddsoddi mewn addasu i newid lle bo hynny'n bosib. Bydd hyn yn anodd i nifer o fudiadau ac maen nhw'n debygol o fod angen cymorth ychwanegol. Bydd angen i ni ddarparu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gefnogi sector cryf.
- Sicrhau bod cymorth ariannol yn cael ei dargedu lle mae mwyaf ei angen.

Gwaith sy'n cael ei arwain gan y gymuned a gwirfoddolwyr.

Mae gweithredu cymunedol wedi chwarae rhan hanfodol mewn cefnogi aelodau agored i niwed o gymunedau. Mae gweithredu ar y cyd wedi'i brofi i fod yn ffordd o hybu cadernid cymunedol.

Mae yno garfan 'newydd' o wirfoddolwyr sydd ag awydd clir i ymateb i anghenion eu cymuned. Efallai y byddan nhw'n cael eu digalonni gan ormod o fiwrocratiaeth a gwaith adrodd. Yn yr un modd, mae gwaith anffurfiol sy'n cael ei arwain gan y gymuned wedi bod yn amhrisiadwy oherwydd ei fod yn ymatebol iawn, yn gweithredu'n gyflym ac wedi'i wreiddio yn y gymuned. Ond mae diffyg llywodraethu ffurfiol hefyd yn lleihau atebolrwydd ac yn cynyddu peryglon, gan gynnwys o ran diogelu. Yn y cyfamser, efallai y bydd pobl sydd wedi gwirfoddoli o'r blaen yn wynebu rhwystrau o ran parhau i ymgysylltu.

Mae rhai o'r goblygiadau a drafodwyd ar gyfer y sector yn cynnwys y canlynol:

- Bydd angen i fudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a'r seilwaith cymorth gwirfoddoli addasu i'r dirwedd newydd. Sut gallan nhw barhau i ddefnyddio gwirfoddolwyr sydd angen cadw pellter cymdeithasol a fydd o bosib yn methu parhau yn eu swyddi blaenorol, sut gallan nhw addasu i alluogi ac i ymgysylltu â charfan

newydd o wirfoddolwyr, sut ydyn ni'n llenwi'r bylchau ac yn adeiladu seilwaith lle nad yw cymunedau'n trefnu eu hunain.

- Sut ydyn ni'n parhau i gydweithio ac adeiladu perthnasoedd â phartneriaid statudol a busnes o ran gwirfoddoli a gweithredu cymunedol?
- Bydd angen i fudiadau gwirfoddol ddarparu cymorth a hyfforddiant priodol i wirfoddolwyr newydd, ac i wirfoddolwyr sy'n dychwelyd i swyddi gwahanol.
- Bydd angen i fudiadau seilwaith a rhwydweithiau perthnasol ystyried sut i adeiladu perthnasoedd a darparu cymorth i grwpiau newydd anffurfiol sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Mae hyn yn cynnwys llywodraethu priodol, heb danseilio gwerthoedd ymatebol sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Mae angen i'r mudiadau seilwaith hyn ystyried sut maen nhw'n mesur effaith gwirfoddoli.
- Sicrhau bod y sector yn gallu dangos gwerth gwirfoddoli / ymateb cymunedol a bod yn llais cryf dros gynnal gwaith sy'n cael ei arwain gan y gymuned.

Darparu gwasanaethau

Mae darparu gwasanaethau wedi addasu'n gyflym i'r argyfwng Covid. Mae rhai o'r newidiadau hyn wedi bod yn gadarnhaol, ond mae rhai'n negyddol. Bydd angen i fudiadau gwirfoddol ystyried y goblygiadau ar gyfer eu gwasanaethau eu hunain, ond hefyd eu rhan mewn dylanwadu ar, a chyd-ddatblygu gwasanaethau statudol.

Mae rhai o'r goblygiadau a drafodwyd ar gyfer y sector yn cynnwys y canlynol:

- Mae perygl y bydd newidiadau i ffurf darparu gwasanaeth, yn enwedig y cynnydd yn y defnydd o dechnoleg ddigidol, yn eithrio rhai pobl. Mae angen gweithio i sicrhau nad oes neb yn / wedi cael eu heithrio gan y newid hwn.
- Wrth adolygu'r newidiadau o ran darparu gwasanaethau a gafodd eu cyflwyno o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19, rhaid i'r sector

sicrhau bod llais defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei glywed a'i gynrychioli fel nad oes unrhyw newidiadau i wasanaethau yn gam yn ôl o ran hawliau neu ddarpariaethau i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

- Mae'r sector wedi chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau newydd ac mae angen iddo weithredu fel partner allweddol o ran darparu gwasanaethau statudol, gan adlewyrchu'r effaith y mae'r sector wedi'i chael ar y cyd.

Siapio a darparu llesiant tymor hir

Fe wnaeth y sesiynau drafod yr ymateb i Covid yng nghyd-destun rhai o'r heriau tymor hir sy'n wynebu cymdeithas. Bydd y ffordd rydyn ni'n ymateb i'r argyfwng nawr yn effeithio ar ein dyfodol.

Mae rhai o'r goblygiadau a drafodwyd ar gyfer y sector yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r argyfwng wedi helpu i greu cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i'r sector helpu i siapio a darparu adferiad sy'n canolbwyntio ar lesiant pobl, gan gynnwys amgylchedd naturiol iach. Mae hyn yn adlewyrchu'r galwadau am adferiad gwyrdd a theg.
- Mae angen i'r sector sicrhau bod ei lais, a llais y rheini mae'n eu cynrychioli, yn cael eu clywed ar draws y gwaith dylanwadu a pholisi. Mae hyn yn cynnwys gwaith sydd ddim i'w wneud â Covid-19 a datblygiad maniffestos y pleidiau ar gyfer etholiadau Senedd Cymru 2021.
- Mae gan y sector ran i'w chwarae drwy sicrhau bod y rheini yr effeithiwyd arnynt yn anghymesur gan Covid a'r rheini sydd wedi dod yn fwy agored i niwed o ganlyniad i'r pandemig yn parhau i gael cefnogaeth. Mae grwpiau cymunedol ar lawr gwlad yn agosach at bobl na'r wladwriaeth ac mae gan elusennau ar draws Cymru gysylltiadau ac arbenigedd penodol i grwpiau mwy agored i niwed. Mae gan y sector gwirfoddol ran hanfodol i'w chwarae i wneud yn siŵr bod y lleisiau hyn yn cael eu clywed ar draws cymdeithas a gan y bobl sy'n gwneud penderfyniadau.

- Dylai'r sector ymgyrchu i gadw newidiadau polisi cadarnhaol (a gwyrddroi newidiadau negyddol), Mae hyn yn gofyn am gydweithio i nodi'r newidiadau hyn ac ymgyrchu i'w cadw.

BETH ALLAI MUDIADAU GWIRFODDOL, CGGC, LLYWODRAETH, NEU FUDIADAU ERAILL SY'N GWNEUD PENDERFYNIADAU EI WNEUD ER MWYN HELPU I'N HARWAIN AT DDYFODOL GWELL?

Mae nifer o gamau gweithredu yn codi i CGGC a'r aelodau eu hystyried a'u cyflwyno i randdeiliaid eraill er mwyn sicrhau bod y sector yn y lle gorau i gael mynediad at y dyfodol gwahanol y mae ei eisiau o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws. Rydyn ni wedi seilio'r adran hon ar fewnbwn y cyfranogwyr ond rydyn ni hefyd wedi ychwanegu syniadau ynghylch sut y gallai'r rhain gael eu datblygu a phwy fyddai yn y lle gorau i arwain heb newid yr egwyddor. Rydyn ni'n gobeithio bod hyn yn ychwanegu gwerth at gynigion y cyfranogwyr.

CGGC / Cefnogi Trydydd Sector Cymru a chyrrff seilwaith eraill.

Ymgyrchu i waith y sector gael ei gydnabod yn yr adferiad uniongyrchol ac wrth siapio a darparu llesiant tymor hirach. Mae hyn yn cynnwys Gweithgor Adfer Llywodraeth Cymru sy'n cael ei arwain gan y Cwnsler Cyffredinol.

- i. Adeiladu ar waith craidd y sector yn hyrwyddo llais dinasyddion cynrychioladol drwy fabwysiadu dulliau gweithredu sy'n gwreiddio ymgysylltiad dinasyddion ynghyd â chydweithio.
- ii. Helpu mudiadau i ddysgu ac i addasu gan gynnwys ynghylch sgiliau digidol a chapasiti er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb.
- iii. Mae angen i gymorth fod ar gael yn hawdd i'r sector er mwyn iddo allu ystyried newid strwythurol. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i lywodraethu mudiadau sy'n bodoli eisoes a rhai newydd, broceriaeth o ran uno, cefnogi diwydrwydd dyladwy cyn uno, a chymorth proffesiynol ehangach i'r rheini sy'n newid strwythur eu gweithle neu bortffolio eiddo er enghraifft.

- iv. Ymgyrchu i gyllid fod ar gael sy'n cynrychioli'r golled net y mae mudiadau yn y sector yn eu hwynebu.
- v. Gweithio gyda chyrrff arbenigol ee Cyrff Rheoleiddiol i gynnig arweiniad amserol wrth i'r sefyllfa newid, er enghraifft, canllawiau clir ynglŷn â diogelu gwirfoddolwyr rhag Covid-19 (gan gynnwys y rheini mewn grwpiau gwarchod / agored i niwed).
- vi. Hwyluso'r sector i nodi newidiadau i bolisi / darparu gwasanaethau y mae eisiau eu rhoi yn y brif ffrwd – ac ymgyrchu ar y cyd i gadw'r rhain.
- vii. Hwyluso a chysylltu ar draws y sector gwirfoddol a gyda sectorau eraill i gefnogi uchelgeisiau a rennir ar gyfer adferiad gwyrdd a theg.

Llywodraeth Cymru

- i. Bydd mudiadau gwirfoddol yn chwarae rhan allweddol yn adferiad Cymru. Rhaid bod cyfleoedd strwythuredig ar gael i amrywiaeth y sector allu cymryd rhan, wedi'u cefnogi gan ddulliau gweithredu agored, cynhwysol a chyfranogol. Dylai mudiadau gwirfoddol fod â llais unedig ar y gweithgorau adfer priodol. Mae hyn yn cynnwys Gweithgor Adfer Llywodraeth Cymru sy'n cael ei arwain gan y Cwnsler Cyffredinol.
- ii. I gydnabod y manteision rydyn ni wedi'u gweld o ragor o ddinasyddion yn cymryd rhan ac o rymuso'r gymuned. Wrth ddatblygu darpariaeth ar gyfer y dyfodol, mae angen i ni roi llais dinasyddion wrth ganol datblygu polisiau a chynllunio gwasanaethu trwy blannu dulliau cyfrannu sy'n gweithio o ran ymgysylltiad dinasyddion fel cynulliadau dinasyddion, dulliau cyd-gynhyrchu a chyllido cyfranogol.
- iii. Darparu cymorth ariannol i helpu mudiadau gwirfoddol i addasu gwasanaethau a modelau gweithredu i gynyddu eu cadernid yng ngoleuni'r argyfwng ac ymateb i ostyngiadau mewn incwm net.
- iv. Datblygu pecynnau cyllid tymor hir.

Y sector gwirfoddol

- i. Cyflawni'r dyfodol rydyn ni'i eisiau drwy ddatblygu arferion sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a lles ochr yn ochr â chynnwys amrywiaeth o bobl yn ein gwaith.
- ii. Cynyddu capasiti a sgiliau digidol, addasu gwasanaethau i gael eu darparu o bell lle bo hynny'n briodol a /neu'n hanfodol. Dylai mudiadau gwirfoddol ymgyrchu dros bobl sy'n wynebu anghydraddoldeb digidol ac sy'n wynebu rhagor o niwed o ganlyniad i wasanaethau o bell.
- iii. Bydd angen i fudiadau gwirfoddol wella eu gallu i fesur a dangos effaith. Mae llawer o dystiolaeth anecdotaidd wedi cael ei chyflwyno y mae angen ei hatgyfnerthu gan astudiaethau effaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dylai CGGC weithio gyda mudiadau eraill fel Inspiring Impact a Gwerth Cymdeithasol Cymru i gyflawni hyn.

Cyllidwyr

- i. Dylai Fforwm Cyllidwyr Cymru a chyllidwyr eraill ystyried sut y gallan nhw ymateb i'r newidiadau yn y cyd-destun ariannol y mae mudiadau yn eu hwynebu a'r angen am becynnau cyllid tymor hirach.
- ii. Cadw dulliau gweithredu hyblyg a ddatblygwyd yn sgil Covid, gyda rhagor o bwyslais ar y gymuned a mudiadau gwirfoddol yn canfod blaenoriaethau, ochr yn ochr â chymorth ar gyfer cyllido creiddiol.

Cydweithio

Mae'r ymateb i Covid wedi gweld y sector yn cydweithio â phartneriaid mewnol, y sector cyhoeddus, busnesau a chyllidwyr. Mae angen cadw a hybu hyn gan ei fod yn hanfodol os ydy'r sector yn mynd i gyflawni'r adferiad y mae'n anelu ato. Bydd cydweithio yn cynyddu ansawdd y gwaith, yn golygu bod modd mesur yr effaith, yn cyfrannu at yr adferiad economaidd a llesiant ehangach ac yn sicrhau bod y sector yn cadw ei ymgysylltiad â chymunedau ar draws Cymru.

RHAGOR O WYBODAETH

Gallwch chi ddarllen adroddiadau sesiwn, blogiau a gwylio recordiadau o bob uno'r pynciau a drafodwyd yn ein digwyddiad Paratoi ar gyfer dyfodol gwahanol, ar <https://wcva.cymru/cy/dylanwadu-ar-ddyfodol-cadarnhaol/>.

Os hoffech chi ddarllen crynodeb o'r canfyddiadau o'r arolwg Paratoi ar gyfer dyfodol gwahanol, neu weld y rhestr lawn o'r mudiadau a gymerodd ran, mae'r rhain ar gael drwy gais. Anfonwch e-bost at policy@wcva.cymru.

0300 111 0124

cggc.cymru

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2020
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Rhif cofrestru'r elusen 218093
Cwmni cyfyngedig drwy warant, rhif 425299
Cofrestredig yng Nghymru